No.

# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, W. Gilligan, R. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N. Marshallsea a J.M. Norman

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Gynradd), R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru), M. Price (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig), G. Scott (Addysg Cyfrwng Cymraeg), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd); R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro), J. Clemett a T. Williams (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a’r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), G.D.D. Carroll, C.P. Franks, E. Goodjohn a S.J. Haines.

## 430 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 431 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd E. Penn.

## 432 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

## 433 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd y Cynghorydd J. Lynch-Wilson fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd y Cynghorydd N. Marshallsea fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn cael ei gyflogi gan Jane Hutt, AS.

Datganodd L. Barrowclough fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd ei bod yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd Dr. M. Price fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd mai Dr. Price oedd Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

Datganodd G. Van der Burgt fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda (Cyllid Ysgol). Natur y buddiant oedd ei bod yn Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

434 ARIANNU A CHYLLID YSGOLION – ALUN CAIRNS, AELOD SENEDDOL BRO MORGANNWG

Dechreuodd Aelod Seneddol (AS) Bro Morgannwg ei anerchiad i'r Pwyllgor gyda datganiad agoriadol y gellid ei grynhoi fel a ganlyn:

- Ariannu a chyllid ysgolion oedd o bosib y mater pwysicaf a oedd yn wynebu pobl ifanc ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd, ac roedd y diffyg arian a gafodd Bro Morgannwg gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn sylweddol ers sawl blwyddyn.
- Cyfeiriodd yr AS at adroddiad yr Ymgynghorydd Economeg Addysg Luke Sibieta ym mis Hydref 2020 a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru 'Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru: Meithrin Tystiolaeth, Tegwch, Tryloywder a Disgwyliadau Clir', a amlygodd fod Bro Morgannwg ar gyfartaledd £750 y disgybl yn is na chyfartaledd Cymru o ran ariannu, a oedd ym marn yr AS wedi cyfrannu at lawer o'r pwysau a wynebir ar hyn o bryd gan ysgolion Bro Morgannwg.
- Amlygodd yr AS dair thema allweddol yn adroddiad Luke Sibieta - sef tanariannu Bro Morgannwg tra ar waelod 'tabl cynghrair' ariannu, effaith gronnus y tanariannu hwn dros amser, a diffyg tryloywder a adroddwyd yn y fformiwla ariannu a ddosbarthodd arian ledled Cymru.
- Ym marn yr AS, roedd lefelau'r arian a gafodd Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU yn deg - £120 am bob £100 sy'n cael ei wario yn Lloegr. Dywedodd yr AS y dylid herio Llywodraeth Cymru ar ddosbarthu'r arian hwn, a dadleuodd nad oedd disgyblion, athrawon na llywodraethwyr Bro Morgannwg yn cael eu cefnogi gan y trefniadau ariannu presennol.

- O bryder arbennig i'r AS roedd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Dywedodd yr AS fod adnoddau ar eu cyfer yn cael eu lleihau er mwyn bodloni rhwymedigaethau statudol mewn mannau eraill.

Yn dilyn y datganiad agoriadol, a chwestiynau a sylwadau dilynol gan yr Aelodau, rhoddodd yr Aelod Seneddol y cyngor ychwanegol canlynol:

- Roedd gan Lywodraeth Cymru bwerau datganoledig i gynyddu trethi i ariannu addysg ymhellach, pe bai'n canfod nad oedd swm yr arian gan Lywodraeth y DU yn ddigonol.
- Ym marn yr AS, roedd darparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl mewn ysgolion cynradd yn gwaethygu'r heriau ariannol sy'n wynebu ysgolion o bosibl, drwy ychwanegu pwysau at eu cyllidebau sydd eisoes heb eu hariannu.
- Dadleuodd yr AS y dylai safonau ac adnoddau addysg gael eu diogelu er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol.
- Dywedodd yr AS y byddai mwy o arian gan Lywodraeth y DU i Gymru yn arwain at angen i gynyddu treth.
- Roedd arian ar gyfer addysg yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU gan ddefnyddio Fformiwla Barnett, i'w ddosbarthu ledled Cymru.
- Dywedodd yr AS fod gwariant cyhoeddus fesul person yng Nghymru ar y lefel uchaf a fu erioed, a bod hyn yn cefnogi'r farn bod y materion yn ymwneud â'r ffordd y dosberthir yr arian hwn, y dylai fod digon ohono i'w ddosbarthu'n briodol.
- Roedd y fformiwla ariannu'n gymhleth, a gellid ei gwella trwy ddiweddaru'r data Cyfrifiad a'i lywiodd - roedd rhywfaint o'r data'n dyddio'n ôl i 1991.
- Roedd ymdrechion blaenorol i addasu'r fformiwla ariannu wedi dibynnu ar gytundeb awdurdodau lleol a oedd yn cydweddu'n dda o'r status quo, ac a fyddai'n waeth eu byd o dan drefniadau wedi'u haddasu.
- Dywedodd yr AS yr hoffai weithio gyda'r rhai a oedd yn anelu at roi pwysau gwleidyddol ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu addasiad i'r fformiwla, a sicrhau bod Bro Morgannwg yn derbyn cyfran deg o arian.
- Roedd data yr oedd yr AS wedi'i ddefnyddio i ddangos gwahaniaethau rhwng arian addysg yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar ddata undebau llafur.
- Nid oedd newid y fformiwla ariannu yn syml, fodd bynnag, roedd ffyrdd o fynd i'r afael â'i diffygion a amlygwyd oherwydd eu symlrwydd cymharol yn cynnwys cyflwyno llawr ariannu a defnyddio data Cyfrifiad modern.

Wrth gloi, diolchodd yr Aelod Seneddol i'r Pwyllgor am y cyfle i drafod y materion ac ailadroddodd, yn ôl sawl adroddiad, fod disgyblion ym Mro Morgannwg dros £700 yn waeth eu byd na chyfartaledd Cymru. Apeliodd yr AS i'r Pwyllgor i sicrhau bod pob plaid yn cydweithio er lles pobl ifanc Bro Morgannwg, ac annog trafodaeth er mwyn cael bargen a fyddai'n gweithio'n well i'r ardal. Galwodd yr AS am gyflwyno llawr ariannu, defnyddio data cyfredol, ac adolygu'r fformiwla, fel yr adroddwyd yn adolygiad Sibieta. Dadleuodd yr AS fod angen i'r fformiwla fod yn fwy tryloyw a syml, ac y byddai cynnydd yn y Dreth Gyngor yn ganlyniad i danariannu ysgolion drwy'r fformiwla.

ARGYMHELLWYD – Y dylid diolch i Alun Cairns AS am ei amser a'i gyflwyniad llafar ar gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a'r DU i fynd i'r afael â'r materion ariannol sy'n wynebu ysgolion Bro Morgannwg.

Y rheswm dros yr argymhelliad

I ystyried y cyflwyniad llafar gan Alun Cairns AS, mewn ymateb i'r materion a godwyd yng nghyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor ynghylch cyllid ysgolion fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.

435 DIWEDDARIAD PRESENOLDEB YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynhwysiant, a'i ddiben oedd codi ymwybyddiaeth yr Aelodau o'r cyfraddau presenoldeb presennol yn ysgolion Bro Morgannwg a'r cynlluniau i'w gwella.

Roedd gan Fro Morgannwg (BM) fel pob Awdurdod Lleol (ALl) rwymedigaethau ers tro i sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol yn cael addysg addas a llawn amser yn yr ysgol neu fel arall.

Roedd gwella presenoldeb wedi bod yn ffocws cyson i'r ALl. Roedd y cysylltiad rhwng presenoldeb da a dysgu yn glir. Roedd presenoldeb da yn cefnogi disgyblion i gael y cyfle gorau posibl mewn bywyd a gwneud y mwyaf o'u potensial, o ran cyflawniad academaidd, datblygiad cymdeithasol/emosiynol a chyflogadwyedd yn y dyfodol.

Roedd BM, ynghyd â phob ALl yng Nghymru, wedi gweld gostyngiad yn y ffigurau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ers pandemig Covid-19. Dangosodd data presenoldeb hanesyddol BM isod y duedd hon wrth gymharu â'r ffigurau o ddiwedd y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

| Math o Ysgol / Diwedd y Flwyddyn | Gorffennaf 2015-16 | Gorffennaf 2016 - 17 | Gorffennaf 2017-18 | Gorffennaf 2018-19 | Gorffennaf 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 95.3% | 95.2% | 94.7% | 94.7% | 91.6% |
| Uwchradd | 95% | 95.1% | 94.6% | 94.7% | 84.6% |

Nid oedd data cymharol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20, 2020/21 na 2021/22.

Bu cynnydd yng nghanran absenoldeb parhaus (presenoldeb o dan 80%) ers dechrau pandemig COVID. Gellid priodoli'r cynnydd hwn i sawl peth gan gynnwys gorbryder wrth ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y cyfnod clo.

Mewn ymateb i'r duedd ar i lawr hon o ran presenoldeb, roedd ALl BM wedi nodi ystod o strategaethau i helpu i gefnogi ysgolion gyda'r her o gael ffigurau presenoldeb yn ôl i lefelau cyn y pandemig a thu hwnt.

Ar ddiwedd 2022/23, cafodd Bro Morgannwg ei sgorio'r 6ed gorau yng Nghymru o ran presenoldeb ysgol cyffredinol gyda chyfradd bresenoldeb o 89%. Cyfartaledd Cymru ar gyfer eleni oedd 88.5%, ac roedd gan yr ALl yn y safle 1af gyfradd presenoldeb o 90%.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, rhoddodd y swyddogion y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Roedd ysgolion yn gwneud cryn dipyn i amddiffyn a chefnogi disgyblion yn gyfannol, ac roedd ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd yn debygol o gefnogi presenoldeb disgyblion o deuluoedd sy'n cael trafferthion ariannol, yn ogystal â meithrin arferion presenoldeb da ymhlith plant a'u teuluoedd a fyddai'n para i addysg uwchradd.
- Roedd nifer o rwystrau i bresenoldeb gan gynnwys problemau gyda pherthnasau yn yr ysgol, anawsterau trafnidiaeth, goblygiadau cost mynychu'r ysgol, problemau iechyd meddwl a gorbryder (yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig), anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac amseroedd aros ar gyfer diagnosis iechyd, ac arferion a threfniadau gwaith teuluoedd.
- Roedd angen ymchwil bellach i leisiau disgyblion a rhieni ynghylch rhwystrau i bresenoldeb ac roedd hyn yn cael ei geisio gan swyddogion ar draws sawl tîm.
- Roedd cyfraddau addysg ddewisol yn y cartref wedi cynyddu ac roedd adroddiad yn canolbwyntio ar hyn i fod i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Tachwedd.
- Er mai'r peth delfrydol oedd i ddisgyblion aros yn yr ysgol, roedd ystod o gymorth pwrpasol yn cael ei gynnig i ddisgyblion yn profi heriau iechyd meddwl gan gynnwys pecynnau dysgu o bell a chymorth i ail-ymgysylltu â'r ysgol. Cynigiodd hyfforddiant y tu allan i'r ysgol, lle roedd ysgolion wedi rhoi cynnig ar lawer o haenau o gymorth ond roedd materion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl wedi atal presenoldeb yn yr ysgol, bont yn ôl i leoliad yr ysgol.
- Roedd cyflwyno Ysgol Derw Newydd fel lleoliad addysg sy'n canolbwyntio ar les i bobl ifanc, yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb mewn ysgolion prif ffrwd ac arbenigol, trwy gynorthwyo i fodloni anghenion pobl ifanc a chreu amgylchedd dysgu amgen.
- Yn flaenorol, nid oedd disgyblion a oedd yn cael mynediad at Brosiect Horizon yn gallu cael mynediad i'r ysgol o gwbl, ac felly roedd eu presenoldeb wedi gwella o sero.
- Ni allai dysgu ar-lein gyfrif tuag at bresenoldeb disgyblion, er bod rhai plant yn dysgu'n answyddogol y tu allan i'r ysgol.
- Roedd ysgolion yn sensitif tuag at ddisgyblion ag anghenion meddygol, er enghraifft, a oedd yn atal presenoldeb perffaith, ac roedd gwelliant mewn presenoldeb yn cael ei ddathlu a'i gydnabod er mwyn osgoi dull sy'n blaenoriaethu anghenion pobl nad ydynt yn anabl.

- Gallai cynlluniau gan gynnwys treialu bysus cerdded a mentrau teithio llesol neu grŵp helpu i liniaru rhai rhwystrau rhag presenoldeb, ac roeddent yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI adroddiad Diweddariad Presenoldeb Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

(2) Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad diweddariad cynnydd pellach mewn 6 mis (Ebrill 2024).

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) I ystyried cynnwys yr adroddiad ar gyfrifoldeb strategol y Cyngor am weithredu dulliau a chynlluniau effeithiol er mwyn sicrhau'r lefelau presenoldeb gorau posibl.

(2) Er mwyn gwerthuso'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r lefelau presenoldeb cyffredinol ac effaith yr ymgyrch #ColliYsgolColliAllan, lansio'r pecyn cymorth presenoldeb ysgol, yr hyfforddiant a'r cymorth pellach i ysgolion ac unrhyw brosiectau peilot ymyrraeth a lansiwyd gydag ysgolion i'r Pwyllgor eu cynnal i oruchwylio gwaith y Tîm Cynhwysiant a'r effaith ar lefelau presenoldeb ar draws Ysgolion Bro Morgannwg.

436 YMGYNGHORIAD AR Y NEWID ARFAETHEDIG I GATEGORI YSGOL STANWELL (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gweithredol Strategaeth ac Adnoddau. Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor Craffu ynghylch yr ymgynghoriad ar gynnig i newid categori Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol Gymunedol.

Hysbysodd yr adroddiad y Pwyllgor am y cynnig a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Stanwell i newid categori’r ysgol o Ysgol Sefydledig i Ysgol Gymunedol o fis Medi 2024. Roedd y penderfyniad i ddatblygu cynnig i newid categori Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol Gymunedol yn benderfyniad i gorff llywodraethu Ysgol Stanwell.

Nodwyd y rhesymau dros y cynnig isod:

- Byddai'r newid i Ysgol Gymunedol yn gwella rheolaeth ariannol, yn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yn ogystal ag effeithio'n gadarnhaol ar y gwaith o reoli derbyniadau o fewn ei dalgylch presennol, yn ogystal â ledled Bro Morgannwg.
- Byddai'n caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106, er enghraifft, drwy Raglen Cynnal Cyfalaf a Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor.

- Byddai'r ysgol yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill drwy'r Awdurdod Lleol gan sicrhau bod yr holl gyfleoedd ar gael ac yn cael eu hysgogi'n briodol. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu ymhellach fanteision ac anfanteision newid statws.

Oherwydd statws sefydledig yr ysgol hon, byddai'r Corff Llywodraethu yn arwain y cynnig gyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol. Y Corff Llywodraethu oedd yn gyfrifol am benderfynu ar y cynnig lle na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau statudol mewn ymateb i gyhoeddi hysbysiad statudol ond yn achos cael gwrthwynebiadau, byddai'r Awdurdod Lleol yn penderfynu ar y cynnig.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 11 Medi 2023 a 23 Hydref 2023.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, rhoddodd y swyddogion y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys adran Cwestiynau Cyffredin a manylion cyswllt i'r Aelodau eu defnyddio os oedd ganddynt ymholiadau.
- Cynhaliwyd sawl sesiwn ymgysylltu fel rhan o'r ymgynghoriad ac atgoffwyd rhieni a staff yn rheolaidd i ymateb i'r ymgynghoriad trwy gylchlythyr y Corff Llywodraethu, yn ogystal â'r gymuned ehangach yn ardal Penarth trwy gyhoeddiadau lleol.
- Er nad oedd lefelau ymateb i'r ymgynghoriad yn uchel ar hyn o bryd, roedd adborth gan yr ysgol yn dangos bod gweithgareddau ymgysylltu sylweddol yn cael eu cynnal a bod yr ymatebion yn gytbwys ac yn gadarnhaol ar y cyfan.
- Roedd yr archwiliad mewnol i'r Ganolfan Les yn yr ysgol wedi dod i ben gyda diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac roedd archwiliad mwy cynhwysfawr i'w gynnal yn ystod tymor yr Hydref.

Diolchodd y Cynghorydd Birch (yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) gyda chaniatâd i siarad, i'r swyddogion am eu gwaith yn cefnogi'r ysgol a dywedodd y dylai dysgu a chyfleusterau yn yr ysgol aros o safon uchel.

Croesawodd y Cynghorwyr Hodges, Birch a Payne y cynnig fel cam cadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

(1) NODI penderfyniad y Corff Llywodraethu i gynnal ymgynghoriad o 11 Medi 2023 i 23 Hydref 2023 ar y cynnig i newid categori'r ysgol o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned.

(2) Y dylai'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynnig.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) I ystyried cynnwys yr adroddiad ar benderfyniad y Corff Llywodraethu i ofyn am adborth drwy ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid rhagnodedig, cyn cyhoeddi ei gynnig, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

(2) I sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ynghylch y cynnig fel rhanddeiliad a nodwyd.

437 ADRODDIAD HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2022/23 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gweithredol Strategaeth ac Adnoddau. Diben yr adroddiad oedd adrodd ar hyfforddiant llywodraethwyr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sylwebaeth a chrynodeb ystadegol o'r niferoedd presenoldeb a'r gwerthusiadau a dderbyniwyd ar gyfer cyrsiau hyfforddiant llywodraethwyr ar-lein a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 aeth y nifer uchaf erioed o lywodraethwyr y Fro i'r nifer uchaf erioed o sesiynau/cyrsiau hyfforddiant. Roedd crynodeb o'r presenoldeb dros yr 9 mlynedd diwethaf ar gael o fewn yr adroddiad.

Cynhaliwyd 87 o gyrsiau / sesiynau rhithwir, a mynychodd 756 o lywodraethwyr y Fro yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Gwnaeth hyn guro'r record flaenorol yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22 lle cynhaliwyd 81 o gyrsiau/sesiynau a lle mynychodd 753 o lywodraethwyr y Fro.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, adleisiodd Dr M. Price y farn bod safon yr hyfforddiant wedi bod yn uchel. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Marshallsea, dywedodd Rheolwr Gweithredol Strategaeth ac Adnoddau fod cyngor a chefnogaeth wedi'u rhoi i Gyrff Llywodraethu ynghylch dyrannu Llywodraethwyr i gyrsiau hyfforddiant penodol, ac y gellid ystyried awgrym y Cynghorydd sef annog un Llywodraethwr fesul ysgol i arwain ar hyfforddiant.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – NODI Adroddiad Hyfforddiant Llywodraethwyr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23.

Y rheswm dros yr argymhelliad

I ystyried cynnwys yr adroddiad ar y sylwebaeth, ystadegau presenoldeb a'r gwerthusiadau a dderbyniwyd ar gyfer cyrsiau hyfforddiant llywodraethwyr ar-lein a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23.

438 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (CAC) –

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad a diben yr adroddiad oedd adrodd ar y cynnydd yn sgil yr argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24:

- Olrhain Argymhellion y Chwarter 1af, mis Ebrill i fis Mehefin 2023 (ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad);
- Olrhain Argymhellion yr 2il Chwarter, mis Gorffennaf i fis Medi 2023 (ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad);
- Atodlen y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/34 (ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLION -

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A a B yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO'r Amserlen Blaenraglen Waith ddiweddaraf ar gyfer 2023/24 sydd wedi'i hatodi yn Atodiad C yr adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) I ystyried cynnwys yr adroddiad i gadw golwg ar argymhellion y Pwyllgor.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.

DS – Yn ystod y drafodaeth ar Eitem 4, gofynnodd yr Arweinydd i'r mater a oedd gwahoddiad i annerch y Pwyllgor yn cael ei estyn i Aelod Senedd Bro Morgannwg gael ei ymchwilio. Nodwyd y cais hwn gan y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu. Cafwyd cadarnhad gan Gadeirydd y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod bod gwahoddiad o'r fath wedi'i anfon drwy e-bost at yr Aelod o'r Senedd.